

Cyflymu Accelerate

Y rhaglen flaengar sy'n hyrwyddo arloesedd ym maes iechyd a gofal

Mae'r rhaglen Cyflymu yn cynnig cymorth pwrpasol i fentrau, busnesau a busnesau newydd sydd eisiau troi syniadau arloesol yn dechnoleg, yn gynnyrch neu'n wasanaethau newydd ar gyfer y sector iechyd a gofal.

Mae Cyflymu yn rhaglen o gydweithio rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac mae'n cael ei hariannu ar y cyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy'r Lywodraeth Cymru.

Nod y rhaglen yw creu gwerth economaidd sy'n para a fydd yn gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru.

Am beth rydyn ni'n chwilio?

Oes gennych chi syniad ar gyfer technoleg iechyd, ond yn ansicr ynglŷn â beth yw'r camau nesaf? Ydych chi'n fusnes sydd eisiau ehangu ar y cynnyrch rydych yn ei gynnig? Ydych chi'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi dod o hyd i ffordd glyfar o wella proses, ac sydd eisiau cymorth i ddatblygu'r syniad? Os felly, rydyn ni eisiau gweithio gyda chi!



Pwy sy'n ymwneud â'r rhaglen?

Canolfan Technoleg Iechyd Prifysgol Abertawe (HTC)

Mae gan HTC dîm o dechnolegwyr arloesi ac arbenigwyr academiaidd mewn meysydd sy'n cwmpasu: bioleg celloedd, technoleg feddygol, dyfeisiau a dadansoddi data. Gallan nhw gynnig mynediad at gyfleusterau ac offer o'r radd flaenaf.

Cyflymydd Arloesi Clinigol Prifysgol Caerdydd (CIA)

Mae gan CIA fynediad uniongyrchol at glinigwyr, ymchwilydd clinigol a chleifion ledled Cymru. Maen nhw'n gallu cynnig arbenigedd academiaidd a chlinigol yn ogystal â diagnosteg gwell yn ymwneud â meddygaeth fanwl.

Canolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (ATIC)

Mae gan ATIC arbenigedd mewn dylunio cynnyrch, gwerthuso profiad defnyddwyr a dadansoddi ymddygiad, data 3D a chipio symudiadau, yn ogystal ag amrywiaeth helaeth o gyfleusterau prototeipio, deunyddiau ac ymchwil.

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wybodaeth helaeth am brif heriau ac anghenion gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru. Maen nhw'n gallu cynnig mynediad a chysylltiadau ar draws ecosystem gwyddorau bywyd ehangach Cymru.

Sut mae gwneud cais?

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen Cyflymu, neu i wneud cais, cysylltwch â accelerate@lshubwales.com | **029 2046 7030**. Byddwn wrth law i'ch helpu chi i ddeall a yw'r rhaglen hon yn addas i chi.

www.lshubwales.com/cy/rhaglenni/cyflymu
[@hwbgbcmru](https://twitter.com/hwbgbcmru) | [#CyflymuCymru](https://hashtab.com/CyflymuCymru)

Byddwch yn barod i siarad am y canlynol yn ein trafodaethau cychwynnol os gwelwch yn dda:

- Eich syniad a'r broblem rydych chi'n ceisio ei ddatrys
- Yr heriau rydych yn eu hwynebu wrth ddatblygu'r syniad hwn
- Trosolwg o'ch cynnydd hyd yma.